# Cynnig am swydd gyda'r RSPB

Mae angen i bob cais am swydd gyda'r RSPB gael ei wneud trwy ein system *eRecruitment* ar-lein.

Os na allwch gwblhau cais ar-lein am unrhyw reswm, cysylltwch â'r unigolyn a enwir yn yr hysbyseb swydd neu recruitmentenquiries@rspb.org.uk i drafod ffyrdd eraill o wneud cais.

Yn dibynnu ar y swydd, bydd gofyn i chi naill ai:

- Cyflwyno copi o'ch CV a chwblhau ffurflen fer
- Cyflwyno copi o'ch CV a chwblhau cais llawn sy'n cynnwys tystiolaeth bod gennych y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad y gofynnwyd amdanynt; neu
- Cwblhau ffurflen gais sy'n profi bod gennych chi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad y gofynnwyd amdanynt.

# Cyn i chi ddechrau

Gofynnir i bob ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth sydd wedi ei nodi isod, felly mae'n syniad da i chi gael y wybodaeth ganlynol wrth law:

- Eich manylion cyswllt
- Eich hanes cyflogaeth dros y 5 mlynedd ddiwethaf
- Manylion unrhyw gymwysterau proffesiynol sy'n berthnasol i'r swydd
- Manylion o leiaf 2 ganolwr proffesiynol

Bydd ein ffurflen gais hirach yn holi 'Amdanoch chi'. Yn yr adran hon hoffem glywed am eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad sy'n berthnasol i'r swydd.

Rydym yn argymell eich bod yn dangos sut ydych chi'n cwrdd â phob un o'r meini prawf y gofynnwyd amdanynt - cymerwch eich amser i feddwl am y sefyllfa, yr hyn wnaethoch chi, a beth oedd y canlyniad. Rydym yn argymell eich bod yn paratoi hwn mewn dogfen arall cyn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ffurflen gais. Y mwyafswm o nodau a ganiateir ar gyfer yr adran hon yw 15000 (gan gynnwys bylchau).

Er enghraifft, os yw'r adran 'yr hyn yr ydym ei angen gennych chi' yn y swydd-ddisgrifiad yn nodi bod angen 'profiad o arwain tîm' fel maen prawf hanfodol, yna mae'n syniad da sôn wrthym am eich sgiliau a'ch profiad o fod yn arweinydd, ac i roi enghreifftiau o sefyllfaoedd lle rydych chi wedi arwain tîm.

Yn ail, byddwn yn gofyn 'Pam ni?'. Yma rydym am ddeall beth wnaeth eich ysgogi i ymgeisio am swydd gyda'r RSPB ac mae'n gyfle arall i chi ddweud wrth y rheolwr recriwtio amdanoch chi'ch hun a pham y byddech chi eisiau gweithio gyda'r RSPB. Y mwyafswm o nodau a ganiateir ar gyfer yr adran hon yw 5000 (gan gynnwys bylchau).

Pwysig - cwblhewch y ffurflen gais gyfan gan gynnwys manylion eich canolwyr a data cyfle cyfartal. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol rhag y rheolwyr recriwtio a dim ond os yw eich cais yn llwyddiannus, ac ar ôl i chi roi caniatâd i ni gysylltu ag unrhyw ganolwyr, y bydd yn cael ei defnyddio.

# Beth i'w ddisgwyl pan fyddwch chi'n gwneud cais

Wedi i chi gwblhau'r dudalen gyntaf a chlicio ar y botwm 'dechrau cais/*start application*' ar gyfer un o'n swyddi ar ein tudalen gyrfaoedd, byddwch yn derbyn e-bost yn awtomatig yn diolch ichi am fynegi diddordeb yn y swydd.


Bydd yr e-bost hwn yn eich cynghori, unwaith iddo gael ei gwblhau, y bydd eich cais yn cael ei adolygu gan y rheolwr cyflogi ac y gallwch ddisgwyl rhywun i gysylltu â chi wedi i'r cais gael ei ystyried yn llawn.

Bydd hefyd yn cynnwys dolen i'ch galluogi i gael mynediad i'ch cais ar-lein tra'i fod yn anghyflawn.

Byddwch hefyd yn derbyn e-bost arall gan *Vacancy Filler* yn eich cynghori ein bod wedi casglu rhywfaint o ddata personol amdanoch chi. Bydd yr e-bost hwn yn eich galluogi i gofrestru ar gyfer porth yr ymgeisydd lle byddwch yn gallu gweld y data hwn a byddwch hefyd yn gallu tynnu eich cais yn ôl a'i ddileu os hoffech wneud hynny.


**NB -** unwaith i chi uwchlwytho'ch CV a chlicio 'dechrau cais' fydd hi ddim yn bosib i chi ddileu na newid y CV, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi uwchlwytho'r un cywir.

Yn dibynnu ar y swydd efallai y gofynnir cwpl o gwestiynau allweddol i chi hefyd sy'n ymwneud â'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd - gweler isod:




**NB –** os na allwch ateb 'ydw' i'r cwestiynau hyn fyddwch chi ddim yn gallu gwneud y swydd hon ac felly ni fyddwch yn gallu bwrw ymlaen â'ch cais.

Wrth greu eich cais - gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau pob un o dudalennau'r ffurflen (byddant yn troi'n wyrdd ac fe fydd tic yn ymddangos ar y dudalen) a'ch bod yn cwblhau'r datganiad terfynol drwy wasgu'r botwm 'cyflwyno/cwblhau/complete' (gweler isod). Sylwch na fyddwch yn medru gwneud unrhyw newidiadau ar ôl i chi gyflwyno'ch cais. Yna, byddwch yn derbyn e-bost arall yn diolch i chi am wneud cais am y swydd ac yn rhoi gwybod i chi bod eich cais yn gyflawn ac wedi'i dderbyn.



giving nature a home

Declaration

We advise reviewing the entire form before attempting to complete. Every change you make is automatically saved

## Declaration

The personal information in the application will be stored and processed for the purpose of arriving at a selection decision and if successful it will form part of the employment record.

Any appointment will be subject to

- right to work checks
- criminal record status compatible to the role
- satisfactory medical clearance and references

If it is discovered that any relevant information has been supplied that is false or that any relevant information has been withheld my employment may be terminated.

If the application is unsuccessful all application data held will be deleted in 12 months from the date the application window closes.

For more information on your privacy rights, please refer to RSPB's Privacy Policy available at www.rspb.org.uk/help/privacy-policy/

☑ I declare that I understand how my information will be used and managed and that the information given and in any supporting documents is true and nothing has been omitted that would affect this application *

☑ If I am unsuccessful in my application, I consent to be contacted by an employee of the RSPB with information on any other roles that I may be considered suitable for.

**IMPORTANT!** You will not be able to return to your application form once it has been submitted.

Previous Complete

**NB -** the bydd y rheolwr cyflogi ar gyfer pob swydd yn anelu at roi gwybod i chi am ganlyniad eich cais, waeth os fuoch chi'n llwyddiannus ai peidio, o fewn 4 wythnos i'r dyddiad cau. Mae'r ffrâm amser hon yn dibynnu ar faint o geisiadau sydd wedi dod i law.

Oherwydd nifer y ceisiadau sydd yn dod i law, ni allwn sicrhau y bydd y rheolwr cyflogi yn gallu darparu adborth unigol.

Sylwch, wedi i chi gyflwyno'ch cais does dim modd i chi ei olygu na'i ailgyflwyno.

Dylai ymgeiswyr ddanfon unrhyw ymholiadau at y rheolwr recriwtio a nodir yn yr hysbyseb, neu at recruitmentenquiries@rspb.org.uk